Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Llywodraethu Awdurdod Parc Cenedlaethol Yng Nghymru —

## canllaw i rolau a chyfrifoldebau'r aelodau

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | **3** |
| **Rhagymadrodd** | | **4** |
| **1** | **Llywodraethu Awdurdod Parc Cenedlaethol** | **5** |
| **2** | **Beth yw Llywodraethu Da, a pham mae'n bwysig?** | |
| | Diffinio Llywodraethu | **8** |
| | Egwyddorion a Fframweithiau Llywodraethu | **9** |
| | Llywodraethu ar sail Dinasyddion | **9** |
| | Egwyddorion Nolan | **10** |
| | CIPFA: Cyflawni Llywodraethu Da mewn Fframwaith Llywodraeth Leol | **11** |
| **3** | **Ymarfer Llywodraethu Da** | |
| | Llywodraethu ar sail Dinasyddion | **12** |
| | Cymhwyso Egwyddorion Nolan | **12** |
| | Cymhwyso Fframwaith CIPFA | **19** |
| **4** | **Arwain drwy esiampl** | |
| | Gwneud ymrwymiad | **22** |
| | Cymryd camau cadarnhaol | **24** |
| **Atodiad — Darllen pellach** | | **30** |


**Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i Huw Rees o HDR Consulting am ddatblygu'r llawlyfr hwn.**

Pob delwedd © Hawlfraint y Goron ac eithrio'r ddelwedd ar dudalen 3 (Trwy garedigrwydd yr Hwb Agored i Bawb 2024. Mae'r holl hawlfraint yn eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Cedwir rhai hawliau)

**Delweddau clawr (clocwedd o'r uchaf):** Glaslyn a Llyn Llydaw, Yr Wyddfa, Parc Cenedlaethol Eryri; Pen y Fan a Corn Du, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; Palod ar Ynys Skomer, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG50827, ISBN digidol 978-1-83715-223-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair



**Huw Irranca-Davies AS, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

Ar ran Llywodraeth Cymru, rwy'n croesawu'r Llawlyfr Llywodraethu APCau hwn.

Mae'r Parciau Cenedlaethol yn gartref i rai o'r ardaloedd gwledig mwyaf prydferth yng Nghymru. Maent yn dirweddau o bwysigrwydd rhyngwladol gyda dynodiad yn rhoi'r statws uchaf ar gyfer cadwraeth tirwedd. Dyma pam bod nodweddion arbennig y Parciau yn cael eu mwynhau gan filiynau o ymwelwyr bob blwyddyn.

Anaml y bu'r Parciau Cenedlaethol yn uwch yn yr ymwybyddiaeth gyhoeddus a gwleidyddol o ystyried eu pwysigrwydd o ran llesiant y cyhoedd a'r cyfraniad a wnânt at fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd. Mae mannau gwyrdd a gwyllt yn rhoi seibiant i bobl a natur a lle i anadlu'n rhydd.

Fodd bynnag, deallaf fod ein Parciau o dan straen cynyddol, o faterion yn amrywio o bwysau ymwelwyr i lygredd ac i gyfyngiadau ariannol. Nawr, efallai yn fwy nag erioed o'r blaen, mae'n hanfodol bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (APCau) yn elwa ar arweinyddiaeth gref wrth wneud penderfyniadau ac wrth iddynt geisio cydbwyso buddiannau cymunedau lleol, busnesau a rheolwyr tir, tra'n cynnal profiadau o'r radd flaenaf i ymwelwyr ac wrth gwrs, diogelu'r amgylchedd.

Mae'r llawlyfr llywodraethu hwn yn rhan o becyn ehangach o gymorth llywodraethu sy'n cael ei ddarparu i'r APCau gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi'i gynllunio i roi'r sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen ar yr Aelodau i lywio'r blaenoriaethau sy'n gwrthdaro sy'n eu hwynebu. Fe'i ddatblygwyd mewn ymgynghoriad agos â'r APCau eu hunain, yn ogystal â Cyfoeth Naturiol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i wneud y mwyaf o'i fudd i bob Aelod, boed yn cael eu penodi gan Awdurdodau Lleol cyfansoddol yr APCau neu gan Weinidogion Cymru.

Rwy'n ddiolchgar i holl Aelodau'r APCau, yn y gorffennol a'r presennol, am y cyfraniad sylweddol y maent yn ei wneud er budd ein Parciau Cenedlaethol, a'r holl bobl sy'n byw ynddynt ac yn ymweld â nhw. Hoffwn hefyd ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad y llawlyfr hwn. Hyderaf y bydd yn helpu pob Aelod o'r APCau i gyflawni eu rôl bwysig wrth ddiogelu a datblygu ein tirweddau mwyaf gwerthfawr.




**Delwedd:** Digwyddiad Anturiaethau Hygyrch Chwaraeon Dŵr i Bawb, traeth Whitesands, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Rhagymadrodd

Mae'r ddogfen hon ar gyfer aelodau presennol a darpar aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol (y byddwn yn eu galw yn 'Aelodau'). Y bwriad yw rhoi trosolwg o rolau a chyfrifoldebau llywodraethu Aelodau, gan dynnu sylw at yr hyn y mae'n ei olygu mewn termau ymarferol i fod yn atebol am lywodraethu Awdurdod Parc Cenedlaethol ('yr Awdurdod') yn effeithiol.

Ni ddylai fod yn ganllaw cynhwysfawr i'r holl ofynion cyfreithiol a statudol a roddir ar Awdurdodau y mae'n rhaid i Aelodau eu hystyried wrth gyflawni eu rôl, ond yn hytrach mae'n ymwneud â disgrifio ffyrdd o weithio sy'n meithrin llywodraethu da. Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol o'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, yn enwedig Deddf yr Amgylchedd 1995, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010, wrth gyflawni eu dyletswyddau Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC).

Mae'r canllaw yn nodi:

- Y trefniadau llywodraethu i Awdurdodau
- Egwyddorion arweiniol llywodraethu yn sector cyhoeddus Cymru a fframwaith llywodraethu llywodraeth leol;
- Ffyrdd o ymarfer llywodraethu da; a
- Sut y gall Aelodau arwain drwy esiampl.

Drwy gydol y canllaw, ceir pwyntiau 'Maes Gweithredu' i roi rhai syniadau a thasgau ymarferol i wella llywodraethu ac effeithiolrwydd cyffredinol Awdurdod. Lle bo'n briodol, rydym hefyd yn darparu dolenni i ddogfennau perthnasol a darllen pellach.

Gobeithiwn y bydd y canllaw hwn yn werthfawr i'r Aelodau wrth ddeall pwysigrwydd llywodraethu yn y sector cyhoeddus, y cyfraniad a ddisgwylir ganddynt fel Aelodau, a sut y gellir gwella llywodraethu pob Awdurdod.



**Delwedd:** Traeth y Gogledd,
Dinbych-y-pysgod, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# 1 Llywodraethu Awdurdod Parc Cenedlaethol

**Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn awdurdodau lleol pwrpas arbennig a chanddynt bwerau gweithredol, sy'n rhan o'r sector llywodraeth leol yng Nghymru. Mae pob Awdurdod yn cynnwys:**

- Traean o Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru; a
- Dwy ran o dair o Aelodau a benodwyd o gynghorwyr awdurdodau lleol sydd â thir o fewn y Parc Cenedlaethol, yn ôl cydbwysedd gwleidyddol.

Maent o bwysigrwydd cenedlaethol i Gymru gyfan ac yn rhan allweddol o deulu'r parciau cenedlaethol yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae dod yn Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol yn golygu cyfrifoldeb i'r Awdurdod hwnnw, gyda dyletswydd i hyrwyddo buddiannau'r Parc Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd. Rhaid i aelodau sy'n gynghorwyr awdurdod lleol arall gynrychioli buddiannau'r Parc yn hytrach na'u hawdurdod neu ward lleol. Yn yr un modd, disgwylir i bob Aelod, o unrhyw blaid wleidyddol neu ddim, wasanaethu buddiannau'r boblogaeth gyfan a holl ddefnyddwyr y Parc yn deg ac yn gyfartal.

## Aelodau

- Maent yn cael eu penodi (gan Gynghorau a Llywodraeth Cymru), nid eu hethol.
- Mae ganddynt statws cyfartal, ni waeth pwy a'u penododd.
- Maent yn atebol i'r Awdurdod.
- Maent yn darparu arweinyddiaeth ar y cyd.
- Rhaid iddynt gyflawni eu dyletswyddau er budd y Parc Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd.

Cydnabyddir y gallai fod amgylchiadau lle mae Aelodau sydd hefyd yn gynghorwyr awdurdod lleol arall yn cael eu rhoi mewn sefyllfa anodd ar faterion sy'n cael eu hystyried gan y ddau sefydliad y maent yn eu cynrychioli. Os nad yw'r Aelodau'n siŵr ynghylch sut i fynd ymlaen, neu'n teimlo bod eu buddiannau'n gwrthdaro, dylent ofyn am gyngor Swyddog Monitro pob awdurdod, gan ddatgan eu trafferthion yn agored.

Caiff awdurdodau eu llywodraethu gan Aelodau drwy gyfarfodydd awdurdod llawn. Dyma lle gwneir penderfyniadau strategol, lle cymeradwyir cyllidebau, a lle datblygir polisïau. Gosodir cyfeiriad strategol yng nghyd-destun dibenion a dyletswydd APCau, y cynllun rheoli a'r llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru. Yn hyn o beth, mae pob Aelod yn chwarae rolau arweinyddiaeth bwysig. Gellir ffurfio pwyllgorau neu weithgorau i ganolbwyntio ar faterion penodol, megis datblygu polisi neu gyllid. Mae Cadeirydd yr Awdurdod a Chadeiryddion Pwyllgorau yn chwarae rhannau hanfodol wrth sicrhau llywodraethu'r Awdurdod yn effeithiol.

**Felly, gellir disgrifio rôl yr Awdurdod a'i Aelodau fel:**

- darparu cyfeiriad a gosod strategaeth;
- gosod cyllideb a sicrhau bod adnoddau ar waith i gyflawni amcanion;
- cynnal goruchwyliaeth a cheisio sicrwydd bod y Parc yn gweithredu'n effeithlon, effeithiol ac yn foesegol;
- llunio diwylliant a chynnal gwerthoedd; a
- chynrychioli ac eirioli ar ran y Parc.


Mae rôl lywodraethu Aelodau'r Awdurdod yn wahanol i rolau gweithredol y Prif Weithredwr, y swyddogion a'r staff. Eu rôl yw gweithredu'r strategaeth y cytunwyd arni gan yr Awdurdod a rheoli'r Parc o ddydd i ddydd. Bydd gan bob Awdurdod Gynllun Dirprwyo sy'n nodi'r materion a'r penderfyniadau a ddirprwyir gan yr Awdurdod i'r Prif Weithredwr a'r swyddogion.

Mae'n hanfodol sefydlu rolau clir ar gyfer pob swydd a sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn deall yn llawn sut mae'r rhain yn gweithio'n ymarferol. Yn bennaf,

- Mae aelodau'n cyfarwyddo ac yn goruchwylio,
- Mae swyddogion yn cynghori, rheoli ac adrodd.

Mae'n bwysig osgoi unrhyw bylu ar y rolau hyn yn rheolaidd neu systemig. Ni ddylai Aelodau gymryd rhan mewn rheoli materion dirprwyedig o ddydd i ddydd. Dylent gynnal goruchwyliaeth a cheisio sicrwydd bod y Parc yn gweithredu'n effeithiol wrth gyrraedd ei amcanion.

Ffigur 1: Rolau Llywodraethu a Rheoli





Mae Ffigur 2 yn nodi enghreifftiau lle bydd angen i Aelodau a Swyddogion weithio gyda'i gilydd wrth gynnal y gwahaniad hwn. Mae atebolrwydd priodol yn gofyn bod y ddwy rôl yn cael eu cyflawni'n llawn ac yn effeithiol gyda gwahanu effeithiol a pharchus. Mae hyn yn arbennig felly ar gyfer APCau lle nad oes system graffu ffurfiol i ddal swyddogion ac Aelodau i gyfrif.

Mae'n hanfodol bod Aelodau a Swyddogion yn ymrwymo mewn modd cadarnhaol ac adeiladol er budd yr APC.

Mae llyfrau gwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol, 'Effective Member and Officer Relations' a'r 'Pecyn cymorth Aelodau CLlLC' yn helpu i egluro'r gwahanol rolau a'r egwyddorion y tu ôl i gysylltiadau effeithiol rhwng Aelod a Swyddog. Gweler yr atodiad Darllen Pellach.

Ffigur 2: Rôl benodol yr Aelodau a'r Swyddogion





**Delwedd:** Rhaeadr Fawr, Parc Cenedlaethol Eryri

# 2 Beth yw llywodraethu da, a pham mae'n bwysig?

## Diffinio llywodraethu

Mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio llywodraethu corfforaethol fel a ganlyn:

*'... y ffordd y mae cyrff y gwasanaeth cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, ar gyfer y bobl iawn, mewn modd sy'n cynnal y gwerthoedd a osodwyd ar gyfer sector cyhoeddus Cymru. Mae effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu yn dylanwadu mewn ffordd arwyddocaol ar y graddau y mae sefydliadau'n cyrraedd eu nodau a'u hamcanion.'*

Mae *International Framework: Good Governance in the Public Sector* (2014) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn disgrifio llywodraethu fel:

### Beth yw llywodraethu?

Y trefniadau a roddwyd ar waith i sicrhau bod y canlyniadau a fwriedir ar gyfer rhanddeiliaid yn cael eu diffinio a'u cyflawni

- rhaid i gyrff llywodraethu ac unigolion sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus geisio cyflawni amcanion eu hendid wrth weithredu er budd y cyhoedd bob amser.
- mae gweithredu er budd y cyhoedd yn awgrymu prif ystyriaeth o'r manteision i gymdeithas, a ddylai arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill.

**CIPFA: Llywodraethu Da yn y sector cyhoeddus**



**Delwedd:** Palod ar Ynys Skomer, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mae trefniadau llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r mecanweithiau sy'n pennu sut mae'r Awdurdod yn gweithredu, yn cael ei reoli a'i ddal i gyfrif. Pwrpas y rhain yw sicrhau:

- bod adnoddau yn cael eu cyfeirio yn unol â pholisïau a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt;
- bod y broses o wneud penderfyniadau yn gadarn ac yn gynhwysol; a
- bod atebolrwydd clir am ddefnyddio'r adnoddau hynny i gyflawni canlyniadau a ddymunir ar gyfer cymunedau, defnyddwyr gwasanaeth ac ymwelwyr.

Mae llywodraethu da yn y sector cyhoeddus yn ymwneud ag ymddygiad priodol busnes cyhoeddus a gynhelir ar ran dinasyddion a threthdalwyr. Mae'n diogelu rhag camdriniaeth bosibl o bŵer ac yn hyrwyddo'r angen am fod yn agored, uniondeb ac atebolrwydd mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'n hanfodol y gall APCau ddangos llywodraethu da drwy dystiolaethu a gwirio bod trefniadau i gyfarwyddo, rheoli a dal i gyfrif, yn effeithiol.

Mae llywodraethu yn cwmpasu diwylliant a gwerthoedd yn ogystal â systemau a phroses. Mae arweinyddiaeth effeithiol wrth greu amgylchedd lle mae llywodraethu da yn ffynnu yn hollbwysig.


**Delwedd:** Llwybr Clawdd Offa, Penybegwn a Chefn Mynydd y Gader, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## Egwyddorion a Fframweithiau Llywodraethu

Mae llywodraethu'n dda yn golygu cydbwyso'r angen i gyflawni amcanion gyda gweithredu yn ôl gwerthoedd y sector cyhoeddus a'r ymddygiadau a ddisgwylir gennym. Mae gan ddinasyddion hawl i ddisgwyl safonau uchel o'r rhai sy'n geidwaid arian cyhoeddus, stiwardiaid ein hamgylcheddau, ein tirweddau a'n cymunedau, ac y mae eu penderfyniadau'n effeithio ar eu bywydau beunyddiol. Mae dilyn egwyddorion, gwerthoedd ac ymddygiadau llywodraethu da yn hollbwysig er mwyn magu a chadw hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn cyrff cyhoeddus.

Bydd ymddygiadau Aelodau a Swyddogion, a'r ffordd y mae'r Parc yn ymwneud â'r cyhoedd, yn diffinio'r ffordd y mae'r cyhoedd yn meddwl am yr Awdurdod ac yn gweithio gydag ef. Yma, rydym yn nodi ffynonellau amrywiol o egwyddorion arweiniol sy'n darparu fframwaith i Awdurdodau ac Aelodau wrth ymgorffori trefniadau llywodraethu, sy'n gyson â disgwyliadau a gwerthoedd sector cyhoeddus Cymru ac yn diwallu anghenion y cyhoedd a defnyddwyr y Parc.

## Llywodraethu ar sail Dinasyddion

Mae'r cysyniadau o weithredu er budd y cyhoedd, ennill ymddiriedaeth y cyhoedd, gwneud penderfyniadau cynhwysol, a chyfranogiad wedi'u cynnwys yn Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd Llywodraeth Cymru, yn y tabl isod:

| **Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd (Llywodraeth Cymru)**<br>Ffynhonnell: Canllaw Cryno i Lywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru — Academi Wales 2017 (gweler yr Atodiad) | |
|---|---|
| **Rhoi'r dinesydd yn gyntaf** | Rhoi'r dinesydd wrth wraidd popeth a chanolbwyntio ar eu hanghenion a'u profiadau; gan wneud darparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn ddiben y sefydliad. |
| **Gwybod pwy sy'n gwneud beth a pham** | Sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r gadwyn gyflawni yn deall rolau a chyfrifoldebau ei gilydd a sut gallant gyflawni'r canlyniadau gorau posibl gyda'i gilydd. |
| **Ymgysylltu ag eraill** | Gweithio mewn partneriaethau adeiladol i sicrhau'r canlyniad gorau i'r dinesydd. |
| **Gwerthoedd byw yn y sector cyhoeddus** | Bod yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan werth, wedi'i wreiddio yn Egwyddorion Nolan a gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus Cymru, gan gynnwys bod yn agored, safonau gwasanaeth cwsmeriaid, amrywiaeth ac arweinyddiaeth ymgysylltiedig. |
| **Meithrin cyflawni arloesol** | Bod yn greadigol ac yn arloesol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus – gweithio yn ôl tystiolaeth a chymryd risgiau a reolir er mwyn sicrhau canlyniadau gwell. |
| **Bod yn sefydliad sy'n dysgu** | Dysgu bob amser a gwella darpariaeth gwasanaeth bob amser. |
| **Cyflawni gwerth am arian** | Gofalu am adnoddau trethdalwyr yn iawn, a'u defnyddio'n ofalus i ddarparu gwasanaethau effeithlon o ansawdd uchel. |



**Delwedd:** Siambr Gladdu Pentre Ifan, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

## Egwyddorion Nolan

Mae saith egwyddor bywyd cyhoeddus (yr 'Egwyddorion Nolan'), a ddyfeisiwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ym 1995, yn nodi safonau ymddygiad a ddisgwylir gan unrhyw un sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys pawb sy'n cael eu hethol, eu penodi neu eu cyflogi fel gweision cyhoeddus. Mae'r holl swyddogion cyhoeddus yn weision i'r cyhoedd ac yn stiwardiaid adnoddau cyhoeddus.

Mae'r safonau hyn yn bwysig i bawb sydd mewn swydd gyhoeddus, a ddylai ddangos eu hymrwymiad yn weithredol trwy eu gwireddu trwy eu gwaith. Mae dyletswydd ar Aelodau APC i sicrhau eu safonau uchel eu hunain a'u goruchwylio yn yr Awdurdod. Mae'r egwyddorion hyn yn gosod bar uchel a bydd adegau pan fyddant yn cael eu profi mewn gwahanol senarios. Dylent fod yn flaenllaw pan fydd Aelodau a Swyddogion yn wynebu penderfyniadau anodd, gan fod hygrededd y Parc a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach yn y fantol.

## CIPFA: Cyflawni Llywodraethu Da mewn Fframwaith Llywodraeth Leol

Mae'r ffordd y mae Parc yn cael ei arwain yn hollbwysig i'w lwyddiant, ac mae'r Aelodau'n gyfrifol am hyn. Rhaid iddynt sicrhau bod yna fframwaith llywodraethu effeithiol sydd â ffocws cryf ar y diwylliant a'r ymddygiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer llwyddiant, yn ogystal â sefydlu a gweithredu'r systemau a'r prosesau cywir. Mae canllawiau ar fframweithiau llywodraethu mewn llywodraeth leol ar gael drwy gyhoeddiadau CIPFA.

Yn 2016, cyhoeddodd CIPFA a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE) *Delivering Good Governance in Local Government: Framework*. Mae'n nodi saith egwyddor llywodraethu da *(ar wahân i Egwyddorion 'Nolan')* ac yn darparu strwythur i awdurdodau brofi eu trefniadau llywodraethu yn eu herbyn a ffordd o nodi'r hyn y gall Aelodau ei wneud o fewn y strwythur hwnnw i gyfrannu at lywodraethu da.

Mae egwyddorion A a B yn canolbwyntio ar weithredu ac ymddwyn er budd y cyhoedd a dylent dreiddio sut mae'r holl egwyddorion eraill yn cael eu cymhwyso. Mae egwyddorion C i G yn amlinellu trefniadau i sicrhau llywodraethu da a gwelliant parhaus. Mae aelodau'n chwarae rhan hanfodol wrth oruchwylio bod y trefniadau hyn yn eu lle ac yn gweithredu'n effeithiol.

Ffigur 3: Cyflawni'r Canlyniadau a Fwriedir Wrth Weithredu Er Budd y Cyhoedd Bob Amser (CIPFA/IFAC 2014)



# 3 Ymarfer llywodraethu da

## Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd

### Maes gweithredu

*Edrychwch ar lywodraethu o safbwynt pobl*

- Sicrhewch fod yr Awdurdod yn blaenoriaethu lles pobl ac yn sicrhau tegwch, tryloywder, ymatebolrwydd, a chynhwysiant yn y ffordd y mae'n gweithio.
- Darparwch fynediad hawdd at wybodaeth, yn enwedig yr hyn y gellir ei defnyddio i ddal yr Awdurdod i gyfrif.
- Grymuswch bobl drwy eu cynnwys yn weithredol wrth wneud a gweithredu penderfyniadau a llunio dyfodol tirwedd a chymunedau.



**Delwedd:** Rhaeadr Nantcol, Parc Cenedlaethol Eryri

## Cymhwyso Egwyddorion Nolan

Dyma senario realistig sy'n dangos cymhwysiad ymarferol Egwyddorion Nolan, gan dynnu sylw at bwysigrwydd ymddygiad moesegol wrth gynnal ymddiriedaeth ac uniondeb y cyhoedd mewn gwasanaeth cyhoeddus.

**Senario:**

Mae datblygwr yn cyflwyno cais am ganolfan chwaraeon dŵr yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r prosiect yn cynnwys cwrs dŵr gwyn ar yr afon, bloc addysg, ystafelloedd newid, caffi a siop. Er bod y prosiect yn addo manteision economaidd mawr, gan gynnwys swyddi, mae gan drigolion lleol bryderon am dagfeydd traffig, colli mannau gwyrdd, effaith ar yr amgylchedd, ac effaith weledol y datblygiad.

Mae sawl grŵp lleol, gan gynnwys sefydliadau amgylcheddol a chymdeithasau busnes, wedi lobïo aelodau'r pwyllgor cynllunio i naill ai gefnogi neu wrthod y datblygiad. Mae un o aelodau'r pwyllgor yn byw ger y safle arfaethedig ac mae wedi cael llythyr gan y datblygwr, fel y trigolion lleol eraill, yn cynnig iawndal am unrhyw aflonyddwch posibl yn ystod y gwaith adeiladu. Yn ogystal, mae'r datblygwr yn cynnig gwneud rhodd i elusen leol yn enw'r aelod os yw'n cefnogi'r prosiect.



**Delwedd:** Llwybr Henry Vaughan, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## Dangos Saith Egwyddor Nolan

### 1. Anhunanoldeb

**Cam Gweithredu:**

Rhaid i'r pwyllgor cynllunio wneud penderfyniadau er budd y cyhoedd yn unig. Rhaid i bob aelod roi ei fuddiannau personol neu fuddiannau trydydd partïon, fel datblygwyr neu lobïwyr, o'r neilltu.

**Enghraifft:**

Rhaid i'r aelod pwyllgor sy'n byw ger y safle datblygu arfaethedig ymesgusodi ei hun o'r broses benderfynu os gallai ei agosrwydd at y safle ddylanwadu ar ei farn neu os oes potensial i gael elw personol (e.e., drwy iawndal gan y datblygwr). Mae hyn yn dangos ei fod yn gweithredu er budd pennaf y cyhoedd, nid er budd personol.

**Pwrpas:**

Dangosir yr egwyddor hon pan fydd aelodau'r pwyllgor yn gweithredu i wasanaethu'r gymuned ehangach yn hytrach na'u buddiannau personol neu ariannol eu hunain.

### 2. Uniondeb

**Cam Gweithredu:**

Dylai'r pwyllgor cynllunio sicrhau nad oes unrhyw ddylanwad o'r tu allan yn effeithio ar ei benderfyniad. Mae hyn yn cynnwys gwrthod cynigion amhriodol, fel y rhodd elusennol a gynigir gan y datblygwr yn enw'r aelod pwyllgor.

**Enghraifft:**

Dylai aelod y pwyllgor cynllunio ddatgan y cynnig i'r Swyddog Monitro ar unwaith a gwrthod unrhyw rodd neu fudd gan y datblygwr. Dylai'r aelod hefyd ymesgusodi ei hun o'r broses benderfynu, gan y gallai ei fuddiant personol yn y tir cyfagos greu gwrthdaro buddiannau. Yn ogystal, dylai roi gwybod i'r pwyllgor am y cynnig er mwyn sicrhau ei fod wedi'i ddogfennu ac nad oes unrhyw ddylanwad gormodol yn effeithio ar y penderfyniad.

**Pwrpas:**

Mae'r aelod pwyllgor yn dangos uniondeb trwy wrthod cael ei ddylanwadu gan gynigion preifat neu elw personol. Drwy ddatgan y gwrthdaro buddiannau a chamu oddi wrth y penderfyniad, mae'n sicrhau bod y broses gynllunio yn parhau i fod yn deg, yn dryloyw, ac yn rhydd rhag unrhyw ddylanwad amhriodol.

## 3. Gwrthrycholdeb

| Cam Gweithredu: | Enghraifft: | Pwrpas: |
|---|---|---|
| Rhaid gwneud pob penderfyniad yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio gwrthrychol, materol megis astudiaethau effaith traffig, asesiadau amgylcheddol, ac adroddiadau effaith economaidd. Rhaid i'r pwyllgor cynllunio seilio ei benderfyniadau ar dystiolaeth, nid ar ddewisiadau personol na barn oddrychol. | Wrth adolygu'r cais, dylai'r pwyllgor flaenoriaethu adroddiadau ffeithiol (e.e. arolygon traffig, astudiaethau amgylcheddol) dros ddadleuon anecdotaidd neu emosiynol. Rhaid iddo bwyso a mesur manteision datblygu economaidd yn ofalus yn erbyn y niwed posibl i fwynderau lleol a'r amgylchedd, gan wneud penderfyniad cytbwys. | Mae'r pwyllgor yn dangos gwrthrycholdeb drwy ddefnyddio data dibynadwy a pholisïau cynllunio i arwain ei benderfyniad, gan sicrhau canlyniad teg a diduedd. |

## 4. Atebolrwydd

| Cam Gweithredu: | Enghraifft: | Pwrpas: |
|---|---|---|
| Rhaid i'r pwyllgor cynllunio fod yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd. Rhaid iddo ddarparu rhesymau clir dros ei benderfyniad a bod yn barod i'w gyfiawnhau os câi ei herio. | Ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud, dylai cofnodion y cyfarfod amlinellu'n glir y rhesymau dros gymeradwyo neu wrthod, gan egluro sut ystyriwyd mewnbwn y cyhoedd, a sut mae'r penderfyniad yn cyd-fynd â'r cynllun datblygu lleol. Os yw'r penderfyniad yn ddadleuol, rhaid i'r pwyllgor fod yn barod i ateb cwestiynau gan y cyhoedd a'r cyfryngau. | Drwy ddarparu esboniadau clir a bod yn agored i graffu cyhoeddus, mae'r pwyllgor yn dangos ei fod yn atebol am ei benderfyniadau a'i gamau gweithredu. |

## 5. Bod yn Agored

| Cam Gweithredu: | Enghraifft: | Pwrpas: |
|---|---|---|
| Dylai'r pwyllgor cynllunio sicrhau tryloywder ar bob cam. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael i'r cyhoedd a chynnal cyfarfodydd mewn fforwm agored lle gall y cyhoedd fod yn bresennol a chyfrannu. | Mae'r pwyllgor yn sicrhau bod yr holl adroddiadau (e.e., asesiadau amgylcheddol, adborth cymunedol) ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Awdurdod ymhell cyn i'r penderfyniad gael ei wneud. Mae'r cyfarfod lle gwneir y penderfyniad yn cael ei gynnal yn gyhoeddus ac yn cael ei ffrydio'n fyw i sicrhau hygyrchedd mwyaf posibl. | Drwy sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhydd a chynnal busnes yng ngolwg y cyhoedd, mae'r pwyllgor yn dangos tryloywder ac yn adeiladu ymddiriedaeth yn y broses. |



**Delwedd:** Priordy Llanddewi Nant Hodni, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## 6. Gonestrwydd

| Cam Gweithredu: | Enghraifft: | Pwrpas: |
|---|---|---|
| Rhaid i aelodau'r pwyllgor fod yn onest yn eu datganiadau a'u penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys datgan unrhyw fuddiannau personol neu berthynas â'r datblygwr neu bartïon eraill sy'n ymwneud â'r penderfyniad. | Rhaid i unrhyw aelod o'r pwyllgor sydd â chyfathrach flaenorol â'r datblygwr neu sydd wedi cael ei lobïo gan grwpiau buddiant ddatgan hyn ar ddechrau'r cyfarfod. Os yw aelod wedi cael ei ddylanwadu gan bartïon allanol neu os oes ganddo wrthdaro buddiannau posibl, rhaid iddo ei ddatgelu'n onest ac ymesgusodi ei hun o'r broses benderfynu os oes angen. Dylai'r Aelodau nodi nad yw cyfathrach flaenorol â'r datblygwr ynddi ei hun yn gyfystyr â gwrthdaro buddiannau sy'n rhagfarnus – gall ddatgan buddiant nad yw'n rhagfarnus a pharhau i gymryd rhan yn y broses benderfynu. | Drwy fod yn onest am eu perthnasoedd, eu diddordebau, neu eu dylanwadau, mae aelodau'r pwyllgor yn sicrhau uniondeb y broses benderfynu. |

## 7. Arweinyddiaeth


| Cam Gweithredu: | Enghraifft: | Pwrpas: |
|---|---|---|
| Rhaid i'r pwyllgor ddangos arweinyddiaeth drwy osod esiampl wrth gynnal safonau moesegol ac annog eraill i wneud yr un peth. Mae hyn yn golygu hyrwyddo arferion gorau a sicrhau uniondeb y broses gynllunio. | Mae cadeirydd y pwyllgor yn arwain drwy esiampl, gan atgoffa'r holl aelodau i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau ar ddechrau'r cyfarfod a sicrhau bod yr holl benderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth, nid emosiwn na phwysau gan grwpiau lobïo. Dylai hefyd annog ymgysylltu â'r cyhoedd drwy groesawu mewnbwn gan drigolion lleol yn ystod y cyfnod cyfranogiad cyhoeddus. | Drwy hyrwyddo ac ymgorffori ymddygiad moesegol yn weithredol, mae'r cadeirydd yn gosod safon ar gyfer y pwyllgor cyfan ac yn meithrin hyder y cyhoedd ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Awdurdod. |



**Delwedd:** Llynnau Cregennen, Parc Cenedlaethol Eryri

## Crynodeb o’r Camau Gweithredu:

- **Anhunanoldeb:** Ymesgusodi unrhyw aelod a allai elwa’n bersonol o’r datblygiad, gan sicrhau bod penderfyniadau er budd y cyhoedd.
- **Uniondeb:** Gwrthod unrhyw gynigion amhriodol (e.e., iawndal gan y datblygwr) a sicrhau nad yw’r broses yn cael ei dylanwadu gan ffactorau allanol.
- **Gwrthrycholdeb:** Gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth (e.e., astudiaethau amgylcheddol, adroddiadau effaith traffig) yn hytrach na barn oddrychol neu bwysau lobïo.
- **Atebolrwydd:** Rhoi esboniad clir a manwl ar gyfer y penderfyniad, cyhoeddi adroddiadau, a bod yn barod i ymateb i graffu cyhoeddus.
- **Bod yn Agored:** Sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael i’r cyhoedd, cynnal cyfarfodydd mewn fforwm agored, a sicrhau mynediad i’r cyhoedd at wneud penderfyniadau.
- **Gonestrwydd:** Datgan unrhyw fuddiannau personol neu ddylanwadau allanol a sicrhau bod pob aelod yn onest yn ei gyfraniadau.
- **Arweinyddiaeth:** Mae’r cadeirydd ac uwch aelodau’r pwyllgor yn gosod y naws drwy hyrwyddo tryloywder, ymddygiad moesegol, a safonau uchaf gwasanaeth cyhoeddus.



**Delwedd:** Cadair Idris, Parc Cenedlaethol Eryri



**Delwedd:** Llyn Syfaddan, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## Delio â phryderon

Dylid cymryd pryderon ynghylch ymddygiad Aelodau, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag Egwyddorion Nolan, o ddifrif a mynd i'r afael â hwy drwy brosesau sefydledig sy'n sicrhau tryloywder, atebolrwydd ac uniondeb mewn swydd gyhoeddus. Drwy ddelio â phryderon, cynnal ymchwiliadau trylwyr, a sicrhau bod y cyhoedd yn adrodd am ganlyniadau, gall yr Awdurdod gynnal safonau moesegol a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd. Os yw aelod o'r farn bod cyd-aelod yn groes, neu wedi bod yn groes i'r Egwyddorion Nolan sydd wedi'u hymgorffori yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau, yna dylid codi'r pryderon hynny gyda'r Swyddog Monitro (SM). Bydd y SM yn ei gwneud yn ofynnol bod tystiolaeth uniongyrchol o achos o dor egwyddor yn cael ei darparu, os yn bosibl. Bydd y SM yn ystyried y ffeithiau ac os yw'r tor egwyddor honedig yn fân iawn neu'n dechnegol, neu os nad oes tystiolaeth glir bod tor egwyddor wedi digwydd, gall awgrymu i'r partïon y byddai'r mater yn cael ei drin yn fwy priodol drwy'r weithdrefn ddatrys leol sydd ar waith yn yr Awdurdod.

Mewn achosion mwy difrifol, neu pan fydd y weithdrefn ddatrys leol wedi torri i lawr, gall y SM gyfeirio'r mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), neu gellir gwahodd yr aelod i wneud hynny ei hun. Mae'r penderfyniad a ddylid ymchwilio ai peidio yn perthyn i'r Ombwdsmon yn unig. Gall OGCC gyfeirio'r mater yn ôl at Bwyllgor Safonau'r Awdurdod i'w ystyried neu, yn yr achosion mwyaf difrifol, ei gyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru. Os canfyddir bod tor egwyddor wedi digwydd, gellir cymhwyso sancsiynau amrywiol, gan gynnwys atal dros dro.

Gall mesurau ataliol, fel hyfforddiant rheolaidd a chanllawiau moesegol, helpu i leihau'r risg o dor egwyddor yn y dyfodol.

Mae'r canlynol yn grynodeb o sut y dylid ymdrin â phryderon:

1. **Codi'r Pryder:**
   Gall y cyhoedd, cyd-aelodau, neu staff yr awdurdod godi pryderon i'r **Swyddog Monitro, y Pwyllgor Safonau**, neu **gadeirydd y pwyllgor.**
2. **Ymchwiliad Cychwynnol:**
   Mae'r **Swyddog Monitro** yn asesu'r gŵyn ac yn cynghori os oes angen ymchwiliad pellach. Gellir datrys mân faterion yn anffurfiol.
3. **Ymchwiliad Ffurfiol:**
   Os yw'r tor egwyddor yn ddifrifol, mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnal ymchwiliad ffurfiol, gan gasglu tystiolaeth a chyfweld â phartïon perthnasol.
4. **Canlyniadau:**
   - Dim camau gweithredu (os nad yw'n ddi-sail)
   - Hyfforddiant neu gyngor i'r aelod
   - Cerydd ffurfiol
   - Cyfeirio at awdurdodau uwch (e.e., Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru)
   - Atal neu dynnu (ar gyfer achosion o dor egwyddor difrifol)
5. **Adrodd Cyhoeddus:**
   Caiff canlyniad yr ymchwiliadau eu gwneud yn gyhoeddus er mwyn sicrhau tryloywder.
6. **Proses Apeliadau:**
   Gall Aelodau apelio ar y penderfyniad os ydynt yn credu eu bod wedi cael eu trin yn annheg.
7. **Mesurau Ataliol:**
   Mae hyfforddiant moeseg rheolaidd a chanllawiau clir yn helpu i atal achosion o dor egwyddor yn y dyfodol.

Mae'r camau hyn yn sicrhau atebolrwydd, tegwch a thryloywder wrth ymdrin â phryderon moesegol.



**Delwedd:** Llynnau Mymbyr, Parc Cenedlaethol Eryri

## Cymhwyso Fframwaith CIPFA

Mae'r tabl isod yn nodi rhai ffyrdd y gall Aelodau gymhwyso'r egwyddorion a nodir yn Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol CIPFA.

### Ymddwyn ag uniondeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith

| Hyrwyddo Safonau Moesegol: | Tryloywder: | Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth: |
| --- | --- | --- |
| Gorfodwch, hyrwyddwch a chydymffurfiwch â chodau ymddygiad sy'n pwysleisio uniondeb, gonestrwydd ac ymddygiad moesegol. | Yn eich pwyllgorau a thrwy gydol eich gwaith, hyrwyddwch yr arfer o fod yn agored ac yn dryloyw yn weithredol wrth wneud penderfyniadau. Dylech groesawu craffu a derbyn atebolrwydd. | Adolygwch eich dealltwriaeth a'ch ymwybyddiaeth o faterion moesegol, gofynion cyfreithiol, a phwysigrwydd cydymffurfio. Rhowch wybod am eich anghenion i'r Gwasanaethau Democrataidd. Cymerwch ran weithredol mewn hyfforddiant. |

### Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

| Ymgysylltu â Rhanddeiliaid: | Cyfathrebu'n effeithiol ac yn agored: | Cynhwysiant: |
| --- | --- | --- |
| Penderfynwch a oes gan eich Awdurdod Strategaeth neu Gynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid. Sefydlwch beth yw eich rôl a beth a ddisgwylir gennych chi. Ymgysylltwch yn weithredol â rhanddeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, i gasglu eu mewnbwn a'u hadborth ar bolisïau a gwasanaethau. | Sicrhewch fod eich cyfathrebu â rhanddeiliaid yn glir ac yn darparu rhesymu, tystiolaeth ac esboniadau sy'n gyson â safbwynt yr Awdurdod. Sicrhewch ymatebion amserol i ymholiadau a cheisiadau. Os oes amheuaeth, ceisiwch gyngor cyn ymateb. | Sicrhewch nad yw eich cyfathrebu chi, a'ch Awdurdod, yn ffafrio un grŵp o bobl dros un arall. Mae gan bob aelod o'r cyhoedd hawl i wybodaeth. Ystyriwch anghenion a safbwyntiau cymunedau amrywiol. |



**Delwedd:** Llyn y Fan Fach, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

### Amcanion clir:

Mae gennych rôl wrth bennu amcanion clir a chynaliadwy. Os ydych yn aneglur o gynigion a gyflwynwyd, yna ceisiwch eglurhad. Ystyriwch a yw'r amcanion rydych chi'n eu cymeradwyo yn cydbwyso anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Os nad ydych yn deall strategaethau neu gynlluniau, mae'n annhebygol y bydd aelodau'r cyhoedd yn eu deall nhw ychwaith.

### Mesur Perfformiad:

Ystyriwch ba wybodaeth y bydd ei hangen arnoch i allu monitro cynnydd ar ganlyniadau. Heriwch adroddiadau nad ydynt yn cynnwys digon o wybodaeth.

### Ffocws tymor hir:

Wrth ddatblygu neu graffu ar strategaethau a chynlluniau, canolbwyntiwch ar gynaliadwyedd tymor hir yn hytrach na gwelliannau tymor byr.

## Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd

### Dyrannu Adnoddau:

Ceisiwch sicrwydd bod adnoddau yn ddigonol i gyflawni'r holl ganlyniadau a ddymunir, a'u bod yn cael eu dyrannu'n effeithlon ac yn effeithiol. A oes gan yr Awdurdod gynllun ariannol tymor canolig (3 i 5 mlynedd)?

### Gwneud Penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth:

Dadansoddwch yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i chi yn drylwyr. A yw'r dystiolaeth yn ddigonol i allu gwneud penderfyniad? Os na, codwch eich llais a'i herio. Sicrhewch eich bod yn ystyried pob opsiwn gwahanol yn gyfartal.

### Rheoli Risg:

Gofynnwch am sicrwydd ynghylch a yw'r holl risgiau ar gyfer yr ymyriadau wedi'u nodi a bod digon o gamau gweithredu wedi'u rhoi ar waith i'w lliniaru.

## Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo

**Meithrin Sgiliau a Chapasiti:**

Ymgysylltwch yn weithredol ag Adolygiadau Datblygu Perfformiad i asesu unrhyw fylchau o ran sgiliau ac anghenion datblygu sydd gennych. Sicrhewch fod gennych raglen ddatblygu ar waith sy'n diwallu eich holl anghenion.

**Datblygu Arweinyddiaeth:**

Penderfynwch ar eich anghenion wrth ddatblygu fel arweinydd. Ystyriwch a ydych yn hyderus ac yn gallu cymryd rôl arweinyddiaeth uwch (e.e. fel Cadeirydd). A oes rhaglen datblygu arweinyddiaeth? A oes gan eich Awdurdod drefniant mentora?

**Gwelliant Parhaus:**

Drwy gydol eich gwaith, canolbwyntiwch yn weithredol ar welliant parhaus i chi'ch hun a'r rhai rydych chi'n gweithio gyda nhw, gan annog arloesi a dysgu.

## Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

**Fframwaith Rheoli Risg:**

Ceisiwch sicrwydd bod fframwaith rheoli risg cynhwysfawr ar waith i nodi, asesu a lliniaru risgiau. A oes trefniadau ar waith i adolygu a monitro risgiau yn rheolaidd?

**Rheoli Perfformiad:**

Ceisiwch sicrwydd bod system rheoli perfformiad ar waith i fonitro, gwerthuso a gwella perfformiad ar draws pob gweithgaredd. Sut gall yr Awdurdod ddangos cynnydd a gwelliant?

**Rheolaethau Ariannol:**

Ceisiwch sicrwydd bod gan yr Awdurdod reolaethau ariannol cadarn ar waith er mwyn sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau. Chwiliwch am dystiolaeth bod rheolaethau yn gweithio neu ddim yn gweithio.

## Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol

**Tryloywder:**

Sicrhewch fod prosesau a chanlyniadau gwneud penderfyniadau yn dryloyw, gyda gwybodaeth ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd. Os nad ydych yn siŵr a oes digon o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd, codwch y mater drwy'r pwyllgor perthnasol.

**Adrodd ac Archwilio:**

Ystyriwch a yw trefniadau adrodd ac archwilio yn ddigon trylwyr i ddarparu atebolrwydd a sicrwydd o lywodraethu da. A ydych yn fodlon bod adroddiadau ffurfiol ar berfformiad a llywodraethu yn rhoi darlun cywir ichi o gryfderau a gwendidau?

**Cyfathrebu â Rhanddeiliaid:**

Ceisiwch sicrwydd bod yr Awdurdod yn cyfathrebu'n effeithiol â rhanddeiliaid ynghylch perfformiad, sefyllfaoedd ariannol, a heriau'r dyfodol.

# 4 Arwain drwy esiampl

## Gwneud ymrwymiad

Mae bod yn Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol yn rôl arbennig, ac mae'n derbyn cyflog amdani. Mae angen cyfuniad o angerdd, ymroddiad ac arweinyddiaeth, ochr yn ochr ag ymrwymiad cryf i warchod yr amgylchedd. Mae pob Aelod yn chwarae rhan allweddol wrth arwain ei Barc a sicrhau ei fod yn cael ei redeg yn dda. Nid oes rôl 'fainc gefn' i Aelodau yn Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl aelodaeth ymrwymo i arweinyddiaeth gyfunol y Parc gyda'r holl amser a'r egni angenrheidiol y mae'n ei gymryd.

Mae cyflawni rôl Aelod Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gofyn am ymrwymiad i:

- **Hyrwyddo dibenion y Parc Cenedlaethol:** Rhaid i aelodau fod yn wybodus o ddau ddiben statudol a dyletswydd y Parc Cenedlaethol a'u bod wedi ymrwymo iddynt, ac yn anelu at gyflawni eu dyletswyddau er budd y Parc Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd, waeth beth yw unrhyw rolau eraill y maent yn eu cyflawni o fewn y gymuned.
- **Gwarchod yr amgylchedd; yr awyr agored a'r bobl sy'n ei lunio:** Dylai'r Aelodau rannu angerdd dros ddysgu a deall y materion, yr heriau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan ein hamgylchedd naturiol, ein hecosystemau a'n cynefinoedd; a chydnabod pwysigrwydd y bobl sydd wedi ei lunio ac a fydd yn ei lunio. Mae hyn yn arbennig o hollbwysig o ystyried yr argyfyngau parhaus yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth.
- **Dangos Egwyddorion Nolan:** Rhaid i aelodau ymrwymo'n weithredol i werthoedd ac egwyddorion ymddygiad mewn gwasanaeth cyhoeddus wrth gyflawni eu dyletswyddau, yn ogystal â goruchwylio safonau uchel o fewn Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gyffredinol.
- **Bod yn rhagweithiol wrth arwain y Parc Cenedlaethol:** Dylai'r Aelodau ddarparu arweinyddiaeth ar y cyd wrth lywodraethu'r Parc i gefnogi swyddogion. Mae hyn yn cynnwys bod wedi eich paratoi'n dda, yn hyderus i gymryd rhan mewn craffu a chyfrannu'n llawn mewn cyfarfodydd. Dylai'r aelodau fod yn rhagweithiol yn eu dull gweithredu, gan ddefnyddio a rhannu eu harbenigedd a cheisio gweithio ar y cyd ag aelodau a swyddogion eraill.



**Delwedd:** Skrinkle Haven, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

- **Ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid:** Dylai aelodau ymrwymo i ymgysylltu'n weithredol â chymunedau lleol, rhanddeiliaid, a grwpiau diddordeb i feithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth. Dylent weithredu fel eiriolwyr dros y Parc, gan gydnabod gwerth cydweithio a gweithio mewn partneriaeth wrth gyflawni nodau cyffredin a gwella effaith yr Awdurdod.
- **Datblygiad a dysgu personol:** Dylai fod gan Aelodau ymrwymiad cryf i'w datblygiad proffesiynol a'u dysgu. Dylent gymryd perchnogaeth o'u Hadolygiad Datblygu Perfformiad personol blynyddol drwy werthuso eu perfformiad a'u hanghenion datblygu eu hunain a sicrhau bod hyn yn bwydo i mewn i raglen hyfforddi a datblygu wedi'i theilwra ar eu cyfer.

**Delwedd:** Pen y Fan Fach a Corn Du, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog



Mae'r ymrwymiadau hyn yn golygu y bydd angen i Aelodau neilltuo digon o amser i gyflawni'r rôl. Mae disgrifiad rôl Aelod Awdurdod Parc Cenedlaethol yn nodi disgwyliad bod Aelodau'n darparu 44 diwrnod o'u hamser i'r rôl. Er bod disgwyl i'r holl aelodau fynychu cyfran uchel o gyfarfodydd ffurfiol yr Awdurdod a'i Bwyllgorau, (mae'r Protocol ar gyfer Awdurdodau Lleol ar ddewis cynghorwyr i wasanaethu fel aelodau o APCau yn nodi 75% fel y trothwy lleiaf a awgrymir) mae llawer o waith y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y gall Aelodau gymryd rhan weithredol ynddo.

Mae cymryd rhan mewn gweithgorau, grwpiau gorchwyl a gorffen, ymgysylltu â rhanddeiliaid a mynychu digwyddiadau yn weithgareddau pwysig y mae angen eu cyflawni gan Aelodau. Oherwydd y nifer gymharol fach o Aelodau dan sylw, mae angen i bob Aelod chwarae eu rhan i ledaenu'r llwyth gwaith yn gyfartal a sicrhau bod gwerth i'r Awdurdod a phwrs y wlad yn cael ei gyflawni. Dylai Darpar Aelodau feddwl yn ofalus iawn am y lefel hon o ymrwymiad cyn ymgymryd â'r rôl.

* Ffynhonnell: Protocol i Awdurdodau Lleol ar ddewis cynghorwyr i wasanaethu fel aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol – Llywodraeth Cymru 2021: www.wlga.cymru/national-parks

## Maes gweithredu

*Fel Aelod APC, dylech ymrwymo i:*

- Hyrwyddo dibenion y Parc Cenedlaethol.
- Gwarchod yr amgylchedd.
- Arddangos Egwyddorion Nolan.
- Bod yn rhagweithiol wrth arwain y Parc Cenedlaethol.
- Ymgysylltu'n weithredol â'r gymuned a rhanddeiliaid.
- Datblygu eich hun a dysgu i wella fel Aelod ac arweinydd.
- Neilltuo digon o amser i gyflawni'r rôl yn effeithiol.



**Delwedd:** Traeth Poppit, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

## Cymryd camau cadarnhaol

Er mwyn i Aelodau ddarparu'r gwerth mwyaf y gallant o fewn yr amser a dreulir yn eu rôl, mae angen iddynt sicrhau bod pob cyfraniad yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol y gall. Yma, rydym yn nodi saith maes lle gellir canolbwyntio sylw i wella effaith Aelodau ar arfer llywodraethu:

1. Sicrhau eglurder pwrpas, amcanion a chanlyniadau.
2. Gweithredu mewn rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir.
3. Adeiladu perthnasoedd adeiladol.
4. Meithrin diwylliant o fod yn agored.
5. Canolbwyntio ar atebolrwydd a sicrwydd.
6. Cyfrannu at wneud penderfyniadau cyson, trylwyr a thryloyw.
7. Arddangos arweinyddiaeth.

## Sicrhau eglurder pwrpas, amcanion a chanlyniadau

Mae'n bwysig iawn i'r Parc Cenedlaethol fod gweledigaeth glir a chymhellol yn cael ei mynegi sy'n cyd-fynd â'i bwrpas, ei ddyletswyddau a'i amcanion. Dylai'r weledigaeth hon arwain pob polisi a phroses gwneud penderfyniadau. Dylai Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol nodi hyn ynghyd â nodau cyraeddadwy a mesuradwy sy'n cefnogi cynaliadwyedd a chadwraeth hirdymor y Parc. Fel Aelod, eich rôl chi yw ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu a hyrwyddo'r weledigaeth hon ac i eirioli dros y Parc wrth gynorthwyo ei gyflawniad.

### Maes gweithredu

- Cymerwch ran weithredol mewn trafodaethau strategaeth — mae angen i chi fod yn fodlon â'r cynlluniau rydych chi'n eu cymeradwyo.
- Ymgyfarwyddwch â'r Cynllun Rheoli — a yw'r blaenoriaethau'n glir?
- Cymerwch amser i ddeall yr heriau cyflawni — 'gofynnwch'.
- Cymerwch ran weithredol mewn ymgysylltu â rhanddeiliaid — eglurwch eich rôl.
- Defnyddiwch eich safle i hyrwyddo pwrpas a blaenoriaethau'r Parc.
- Sicrhewch fod eich negeseuon yn glir ac yn gyson — 'gwiriwch'.



**Delwedd:** Capel Sant Gofan, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

## Gweithredu mewn rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir

Mae rolau a ddiffiniwyd yn glir mewn llywodraethu yn hollbwysig ar gyfer effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, ac atebolrwydd a thryloywder y Parc Cenedlaethol. Mae eglurder yn helpu i sicrhau bod y materion yn cael eu trin gan yr unigolion neu'r timau mwyaf priodol, ei bod yn amlwg pwy sy'n gyfrifol, a'i bod yn glir pwy sy'n gyfrifol.

Gall cael eglurder dros rolau a chyfrifoldebau priodol hefyd helpu i atal a datrys gwrthdaro a chynorthwyo yn ystod adegau o argyfwng. Gall amlinellu ffiniau a lleihau gorgyffwrdd mewn cyfrifoldebau atal anghydfodau ynghylch awdurdod a gwneud penderfyniadau, a gwella gallu'r Awdurdod i ymateb ac addasu yn sylweddol, gan gyfrannu at lywodraethu llyfnach.

### Maes gweithredu

- Ymgyfarwyddwch â'r Cynllun Dirprwyo a strwythurau a phrosesau cysylltiedig – a ydych yn glir ynghylch pwy sy'n gwneud beth a pham?
- Byddwch yn glir ynghylch cyfrifoldebau eich pwyllgor a'ch rôl.
- Cymerwch ran yn gyson ac yn weithredol yn eich rôl – nid dim ond pan fydd mater yn ennyn eich diddordeb.
- Adnabyddwch eich rôl, parchwch ffiniau a pheidiwch â chymryd rhan mewn materion gweithredol.
- Dylech ymddiried yn y fframwaith a'r bobl — datryswch faterion drwy ddilyn protocol.
- Os oes amheuaeth – chwiliwch am yr eglurder sydd ei angen arnoch chi.

## Adeiladu perthnasoedd adeiladol

Mae perthnasoedd adeiladol rhwng Aelodau a Swyddogion yn hanfodol ar gyfer llywodraethu'r Parc Cenedlaethol yn effeithiol. Mae perthnasoedd gwaith da yn meithrin cydweithio, ymddiriedaeth ac yn helpu i wneud penderfyniadau effeithiol. Mae perthnasoedd adeiladol rhwng aelodau a swyddogion mewn llywodraethu yn cael eu nodi gan ddull cydweithredol, sy'n cael ei ategu gan barch i'r ddwy ochr, cyfathrebu effeithiol, ac ymrwymiad a rennir i nodau'r Awdurdod. Mae'r perthnasoedd hyn yn hollbwysig ar gyfer galluogi llywodraethu ymatebol, cyfrifol ac effeithiol.

### Maes gweithredu

- Ewch i'r afael â nodau a heriau gyda ffocws tîm, wrth gydnabod gwahanol rolau.
- Gosodwch ddisgwyliadau clir ynghylch perfformiad, cyfathrebu, diweddariadau ac adroddiadau i leihau camddealltwriaeth a gwrthdaro posibl.
- Gweithredwch ar y cyd, yn enwedig wrth ddal i gyfrif neu herio — dylai pob parti fod â buddiannau gorau'r Parc mewn golwg.
- Dangoswch empathi wrth ddatrys problemau — canolbwyntiwch ar atebion heb edrych ar roi bai ar rywun.
- Dilynwch broses a phrotocol priodol ar wneud penderfyniadau, cyfathrebu, a thrin cwynion ac ymholiadau bob amser.
- Byddwch yn gefnogol — gofynnwch sut y gallwch chi helpu.

## Meithrin diwylliant o fod yn agored

Nodweddir diwylliant o fod yn agored mewn llywodraethu gan dryloywder, atebolrwydd a chynhwysiant. Mae'n adeiladu ymddiriedaeth ymysg Aelodau, staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd, ac mae'n hanfodol ar gyfer gweithrediad effeithiol y Parc Cenedlaethol. Mae gweithredu diwylliant o fod yn agored yn gofyn am ymrwymiad gan bob lefel o'r Awdurdod, o uwch arweinyddiaeth i weithwyr rheng flaen. Mae'n ymdrech barhaus a all arwain at lywodraethu mwy effeithiol, gwell ymddiriedaeth, a chanlyniadau gwell i'r Parc a'i randdeiliaid.

Dylid rhannu gwybodaeth berthnasol gyda chyd-weithwyr, rhanddeiliaid, a'r cyhoedd yn rhagweithiol. Dylid osgoi cadw gwybodaeth yn ôl oni bai bod rhesymau dilys dros wneud hynny. Mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn meithrin diwylliant lle mae pobl yn gyfforddus wrth fod yn agored. Dylid hyrwyddo diwylliant 'dysgu o gamgymeriadau', gan fod beio neu chwilio am fwch dihangol yn gwrthbwyso bod yn agored ac yn arwain at ddiwylliant o gyfrinachedd.

### Maes gweithredu

- Byddwch yn hygyrch i eraill – anogwch gyfathrebu agored a byddwch yn barod i wrando ar wahanol safbwyntiau.
- Byddwch yn ymatebol i ymholiadau, pryderon ac adborth rhanddeiliaid mewnol ac allanol – os nad ydych yn gwybod yr ateb, gofynnwch.
- Ceisiwch osgoi jargon a sicrhau bod gwybodaeth a rennir gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn hygyrch ac yn hawdd ei deall.
- Byddwch yn barod i egluro camau a gymerwyd, penderfyniadau a wnaed, a'r rhesymeg y tu ôl iddynt – dylech osgoi cyfrinachedd a distawrwydd.
- Trafodwch faterion neu bryderon yn gynnar – peidiwch â gadael i bethau gasglu.



**Delwedd:** Tryfan a'r Glyderau, Parc Cenedlaethol Eryri

## Canolbwyntio ar atebolrwydd a sicrwydd

Mae atebolrwydd a sicrwydd yn egwyddorion sylfaenol sy'n sail i effeithiolrwydd, ymddiriedoldeb a chyfreithlondeb cyrff cyhoeddus. Maent yn elfennau hanfodol sy'n gwella llywodraethu, perfformiad a hygrededd y Parc Cenedlaethol. Maent yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod gweithredoedd yr Awdurdod yn cyd-fynd â buddiannau cymunedol a rhanddeiliaid a bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn foesegol.

Mae'r cysyniad hwn o atebolrwydd wrth wraidd rolau'r Aelodau, ac ynddo mae ganddynt gyfrifoldeb deublyg:

- Dal y sefydliad i gyfrif am gyflawni ei strategaethau a'i gynlluniau.
- Ceisio sicrwydd bod y systemau rheoli yn gadarn ac yn ddibynadwy.

### Maes gweithredu

- Chwiliwch am sicrwydd yn rhagweithiol, peidiwch ag aros i gael pryderon wedi'u chwalu gan eraill – mae sicrwydd yn curo tawelu meddwl.
- Sicrhewch fod sicrwydd yn cael eu hategu gan dystiolaeth, p'un a ydych yn derbyn neu'n rhoi sicrwydd.
- Daliwch wneuthurwyr penderfyniadau dirprwyedig i gyfrif am ganlyniadau nid y pethau bychan – gwelwch y darlun mawr.
- Goruchwyliwch gyda Diwydrwydd: Byddwch yn ddoeth ac yn feddylgar yn eich rôl yn goruchwylio adnoddau'r Parc. Meddyliwch yn ofalus am benderfyniadau cyllideb, staffio, a dyrannu adnoddau.
- Byddwch yn huawdl pan nodir camymddwyn neu esgeulustod, mynnwch atebolrwydd a chamau cywiro priodol.
- Cymerwch gyfrifoldeb: Byddwch yn barod i gael eich craffu a'ch dal i gyfrif, derbyniwch heriau ac ymatebwch yn barchus a meddylgar heb fod yn amddiffynnol.

## Cyfrannu at wneud penderfyniadau cyson, trylwyr a thryloyw

Mae gwneud penderfyniadau strategol yn rhan annatod o rolau'r Aelodau wrth lunio strategaeth. Mae ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau bod penderfyniadau yn cyd-fynd â'r cyfeiriad strategol cyffredinol, bod opsiynau priodol wedi'u dadansoddi a'u hystyried, a bod meini prawf a'r rhesymeg dros benderfyniadau yn dryloyw, yn wrthrychol ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

Pan fo penderfyniadau yn cael eu dirprwyo drwy gynllun dirprwyo ffurfiol, mae'r Aelodau'n dal i fod yn atebol am y canlyniadau ac felly, yn eu rôl oruchwylio, mae'n rhaid iddynt geisio sicrwydd bod penderfyniadau wedi'u gwneud yn briodol a chyda diwydrwydd dyladwy.

### Maes gweithredu

- Deallwch eich rôl wrth wneud penderfyniadau, a chwaraewch eich rhan yn weithredol.
- Cadwch yr wybodaeth ddiweddaraf a chwiliwch am hyfforddiant ac addysg ar bynciau megis llywodraethu, moeseg, polisi cyhoeddus, a rheolaeth ariannol.
- Ymgysylltwch â chymunedau yn rheolaidd, yn unol â pholisïau eich APC, i ddeall eu hanghenion, eu pryderon a'u safbwyntiau.
- Adolygwch adroddiadau a dogfennau'n drylwyr: byddwch yn chwilfrydig ac yn wrthrychol a gofynnwch gwestiynau profiadol am ddata, gwybodaeth a rhagdybiaethau.
- Mynnwch wybodaeth, data a chyngor cynhwysfawr o ansawdd da.
- Gweithredwch er budd gorau'r Parc a'i gymunedau, gan osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Ymesgusodwch eich hun o benderfyniadau lle na allwch fod yn ddiduedd.
- Hyrwyddwch hyder yn y broses o wneud penderfyniadau drwy dderbyn penderfyniadau mwyafrifol a chefnogi'r canlyniad.

## Arddangos arweinyddiaeth

Mae dangos arweinyddiaeth dda yn hanfodol wrth hyrwyddo llywodraethu da. Mae'r Aelodau yn gosod y naws ar gyfer sut mae'r Awdurdod yn gweithredu ac yn ymddwyn fel llysgenhadon wrth adeiladu ymddiriedaeth, gwella enw da, a hyrwyddo cynaliadwyedd hirdymor y Parc Cenedlaethol.

Mae arweinwyr mewn llywodraethu yn fodelau rôl, sy'n dylanwadu ar ymddygiad ac agweddau eraill yn yr Awdurdod a'r rhai y mae'n gweithio gyda nhw ac ar eu cyfer. Drwy ddangos ymroddiad, cymhwysedd, ac ymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus, maent yn ysbrydoli hyder ynddynt eu hunain a'r Awdurdod.

Nid yw dangos arweinyddiaeth dda ym maes llywodraethu yn ymwneud â dal swydd ag awdurdod yn unig; mae'n ymwneud â chyfrannu'n weithredol at greu Awdurdod mwy effeithiol, cydradd a blaengar. Gall aelodau ddangos arweinyddiaeth drwy fodelu gwerthoedd sector cyhoeddus, cyfathrebu'n effeithiol, dangos atebolrwydd, ac ysbrydoli ac ysgogi eraill.

### Maes gweithredu

- **Byddwch yn fodel rôl:** dangoswch y gwerthoedd, yr etheg gwaith a'r ymddygiadau rydych chi'n eu disgwyl gan eraill. Arweiniwch drwy esiampl o ran proffesiynoldeb, ymroddiad, ac ymddygiad moesegol.
- **Cyfathrebwch yn effeithiol:** mynegwch eich gweledigaeth, gwerthoedd a'ch disgwyliadau yn glir. Cadwch gyfathrebu yn agored, yn onest ac yn dryloyw, gan feithrin diwylliant o ymddiriedaeth.
- **Dangoswch atebolrwydd:** Gosodwch, a disgwyliwch, safonau atebolrwydd uchel. Cyflawnwch addewidion a chymerwch gyfrifoldeb am eich gweithredoedd a'ch penderfyniadau. Daliwch eich hun ac eraill yn atebol am gyrraedd nodau a chynnal safonau uchel.
- **Ysbrydolwch ac Ysgogwch:** Eiriolwch yn gyson dros bwrpas y Parc a gwerth gwaith yr Awdurdod. Ysgogwch eraill trwy atgyfnerthu cadarnhaol, cydnabyddiaeth ac anogaeth.



**Delwedd:** Sgwd yr Eira, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

# Atodiad — Darllen pellach

**Yn ogystal â’r dolenni i ddeunyddiau sydd wedi’u cynnwys yn y brif ddogfen, bydd y canlynol yn gyfeiriadau defnyddiol i’r Aelodau:**

## Adran Ragymadrodd:

**Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 — Llywodraeth Cymru, Mehefin 2015**

www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru

## Adran 2: Beth yw llywodraethu da, a pham mae’n bwysig?

**Cysylltiadau effeithiol aelodau a swyddogion — llyfr gwaith cynghorwyr — Cymdeithas Llywodraeth Leol, Ebrill 2012 (Saesneg a pdf yn unig)**

www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/effective-member-and-offi-aa7.pdf

**Pecyn cymorth Aelodau CLlLC: penodiadau i gyrff allanol — Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Mawrth 2022**

www.wlga.cymru/appointments-to-outside-bodies-the-councillors-role

**Ydych chi’n poeni am gamwedd lle rydych chi’n gweithio — Archwilio Cymru, 2024**

www.wao.gov.uk/cy/chwythur-chwiban

**Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus — Llywodraeth y DU, 1995 (Saesneg yn unig)**

www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life

**Mae gwefan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn cynnal llawer o gyhoeddiadau sy’n ddefnyddiol i sefydliadau ac unigolion wrth ymgorffori safonau moesegol i gefnogi llywodraethu da (Saesneg yn unig)**

www.gov.uk/government/organisations/the-committee-on-standards-in-public-life

**‘Cyflawni llywodraethu da mewn Fframwaith Llywodraeth Leol’ — Rhifyn 2016 CIPFA (Saesneg yn unig)**

www.cipfa.org/policy-and-guidance/publications/d/delivering-good-governance-in-local-government-framework-2016-edition

**bydd y ddolen yn mynd â chi i dudalen brynu. Os nad oes gan eich Awdurdod danysgrifiad, cysylltwch â’ch swyddog perthnasol*

## Darllen Ychwanegol

**Llywodraethu Awdurdodau Parc Cenedlaethol – Archwilio Cymru, 2024**

www.audit.wales/cy/cyhoeddiad/llywodraethu-awdurdodaur-parciau-cenedlaethol

**Canllaw i egwyddorion llywodraethu da – British and Irish Ombudsman Association, 2009 (Saesneg yn Unig)**

www.ombudsmanassociation.org/best-practice-and-publications/guide-principles-good-governance

**Canllaw Cryno i Lywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru – Academi Wales, Canllaw Cryno i Lywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru, 2017 (pdf yn unig)**

www.academiwales.gov.wales/api/storage/41c5198e-2372-4882-a8b4-6ce6148fa95b/Canllaw%20Cryno%20i%20Lywodraethu%20Da%20ar%20gyfer%20Byrddau%20GIG%20Cymru.pdf?preview=true

**Arwain mewn Ymarfer – adolygiad gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus 2023 (Saesneg yn unig)**

www.gov.uk/government/publications/leading-in-practice#:~:text=On%2024%20January%202023%2C%20the,policies%20and%20ways%20of%20working

**Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru – Llywodraeth Cymru, 2016**

www.llyw.cymru/rheoli-arian-cyhoeddus-cymru

**Towards people-centric public services – OECD, 2019 (Saesneg yn unig)**

www.oecd.org/en/publications.html#:~:text=People%2Dcentric%20public%20services%20are,assistance%20and%20would%20prefer%20to

**Hyfforddiant Aelodau APCau, gan gynnwys ar Lywodraethu – Llywodraeth Cymru 2023-24**
*(mae'r dudalen we wedi'i diogelu gan gyfrinair – gall eich rheolwr Gwasanaethau Democrataidd/ Aelodau ddarparu'r cyfrinair)*

www.landscapeswales.org.uk/member-training/



**Delwedd:** Coed Aber Artro,
Parc Cenedlaethol Eryri